

## Tasg 3

(Heriol, sbardun 3)

Paratowch daflen gyffrous i hysbysebu campfa newydd yn eich ardal chi. Dyma rai pwyntiau i'ch helpu:

- Pa fath o bethau rydych chi'n mynd i'w cynnig yn y gampfa?
- Dewiswch leoliad da a meddyliwch am sut mae'r cwsmeriaid yn mynd i gyrraedd y gampfa – yn y car (os felly, fydd parcio ar gael?), ar y bws/trên?
- Beth yw'r manteision i'r cwsmeriaid? Er enghraifft, soniwch am y cyfleusterau, y gweithgareddau a manteision fel hyfforddwyr personol, efallai.
- Faint yw pris y gampfa – y mis / y dydd? (gweithiwch hyn allan drwy rannu swm y mis â 31)
- Oes rhaid cael cytundeb blwyddyn?
- A oes gwasanaeth ar gael yn Gymraeg?